




Gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGC, 31 Mawrth 2018

27 Mehefin 2018
SFR 53/2018

Canlyniadau allweddol

- O gymharu, nid yw nifer y gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru ar unrhyw un adeg wedi newid llawer, er bod newidiadau mewn cofrestriadau a diddymiadau'n digwydd trwy gydol y flwyddyn. Roedd cyfanswm o 5,968 o wasanaethau a 111,557 o leoedd wedi'u cofrestru gyda AGC ar 31 Mawrth 2018. Mae hyn cynnwys pob gwasanaeth sydd wedi'i gofrestru neu'i atal. Collwyd 165 gwasanaeth (gostyngiad o 3 y cant bron) a 677 lle (gostyngiad o 0.6 y cant) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, bu cynnydd o 11 o wasanaethau i oedolion (0.7 y cant) a chynnydd o 240 o leoedd (llai nag un y cant). Bu cynnydd o wyth gwasanaeth i blant (3.3 y cant) a chynnydd o 31 o leoedd (1.3 y cant). Bu gostyngiad o 184 o wasanaethau gofal plant a chwarae (gostyngiad o 4.3 y cant) a gostyngiad o 948 o leoedd (gostyngiad o fwy nag 1 y cant).
- Cofrestrwyd 371 o wasanaethau newydd, ac roedd 74 y cant o'r rhain ar gyfer gofal plant a Chwarae. Cafodd 507 o wasanaethau eu diddymu, ac roedd 87 y cant o'r rhain hefyd ar gyfer gofal plant a chwarae.
- Cafodd cyfanswm o 2,427 o hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio a 3,419 o bryderon yn erbyn gwasanaethau eu cofnodi gan AGC.

Gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGC



Am y datganiad hwn

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gyfrifol am reoleiddio amrediad o wasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer oedolion a phlant er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ar gyfer y bobl sy'n eu defnyddio.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn crynhoi'r canlyniadau allweddol ar gyfer Cymru ynghylch nifer y gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGC, fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2018. Mae'n cynnwys gwasanaethau i oedolion, gofal plant a chwarae, gwasanaethau plant, ac mae'n cynnwys cymariaethau â chanlyniadau diwedd y flwyddyn ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

Yn y datganiad hwn

Gwasanaethau a lleoedd	2
Gwasanaethau oedolion	2
Gwasanaethau plant	4
Gofal plant a chwarae	6
Cofrestriadau a diddymiadau	7
Diffyg cydymffurfio a phryderon	9

1. Gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGC

Mae gwasanaeth yn enw cyfunol ar sefydliad neu unigolyn/unigolion a reoleiddir gan AGC. Mae rhai gwasanaethau wedi'u cofrestru i ddarparu gofal i uchafswm o bobl – dyma nifer y lleoedd cofrestredig. Nid yw lleoedd yn cael eu cofrestru ar gyfer lleoliadau i oedolion, gofal cartref, asiantaethau nyrsio a'r gwasanaethau hynny nad yw AGC yn eu cofrestru megis gwasanaethau maethu, gwasanaethau mabwysiadu a cholegau addysg bellach.

Tabl 1.1: Cyfanswm y gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGC

	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	Newid (a)	
					Lefel	Canran
Gwasanaethau Oedolion						
Gwasanaethau	1,594	1,582	1,568	1,579	11	0.7 ↑
Lleoedd	26,191	25,642	25,753	25,993	240	0.9 ↑
Gwasanaethau Plant						
Gwasanaethau	230	241	244	252	8	3.3 ↑
Lleoedd	2,178	2,217	2,468	2,499	31	1.3 ↑
Gofal Plant a Chwarae						
Gwasanaethau	4,439	4,386	4,321	4,137	-184	-4.3 ↓
Lleoedd	77,581	80,840	84,013	83,065	-948	-1.1 ↓
Cyfanswm						
Gwasanaethau	6,263	6,209	6,133	5,968	-165	-2.7 ↓
Lleoedd	105,950	108,699	112,234	111,557	-677	-0.6 ↓

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGC

(a) Newid mewn gwasanaethau a lleoliadau yn cymharu 2016–17 â 2017–18

Mae gostyngiad graddol wedi bod yng nghyfanswm nifer y gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGC dros y pedair blynedd diwethaf. Ers 2016–17 mae cyfanswm y gwasanaethau wedi gostwng o 165 (gostyngiad o 2.7 y cant) a lleoedd wedi gostwng o 677 (gostyngiad o 0.6 y cant). Yn gyffredinol ni fu llawer o newid yn nifer y gwasanaethau a lleoedd i oedolion a reoleiddir gan AGC yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae gwasanaethau plant a gofal plant a chwarae wedi gweld rhagor o amrywiadau yn nifer y gwasanaethau a lleoedd. ([Tabl 3.1](#), [Tabl 4.1](#))

2. Gwasanaethau oedolion

Mae AGC yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio cartrefi preswyl a nyrsio ar gyfer oedolion o bob oedran, o oedolion ifanc rhwng 18 a 65 mlwydd oed i oedolion hŷn dros 65 mlwydd oed. Mae'r sector gofal hwn yn cynnwys asiantaethau a sefydliadau sy'n darparu gofal a chymorth ar gyfer pobl yn eu cartrefi eu hunain ac yn y gymuned trwy ofal cartref.

Mae cynlluniau lleoli oedolion yn gynlluniau lleol sy'n galluogi hyd at ddau o bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth i fyw fel rhan o deulu neu gartref. Gall y lleoedd hyn fod yn barhaol, neu am gyfnod byr a darparu cyfnodau o ofal seibiant.

Mae asiantaethau nyrsio yn sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau nyrsio preifat yn y gymuned ac maent yn cynorthwyo pobl â'u gofal personol.

Tabl 2.1: Nifer y gwasanaethau a lleoedd i oedolion a reoleiddir gan AGC


	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	Newid (a)	
					Lefel	Canran
Lleoli Oedolion						
Gwasanaethau	11	9	8	8	0	0.0 →
Lleoedd (b)		
Gofal Preswyl i Oedolion						
<i>Cartrefi Gofal (Oedolion Hŷn):</i>						
Gwasanaethau	670	653	642	643	1	0.2 ↑
Lleoedd	22,713	22,092	22,217	22,466	249	1.1 ↑
<i>Cartrefi Gofal (Oedolion Iau):</i>						
Gwasanaethau	444	453	439	439	0	0.0 →
Lleoedd	3,478	3,550	3,536	3,527	-9	-0.3 ↓
Gofal Cartref						
Gwasanaethau	431	426	432	437	5	1.2 ↑
Lleoedd (b)		
Asiantaethau Nyrsys						
Gwasanaethau	38	41	47	52	5	10.6 ↑
Lleoedd (b)		
Cyfanswm						
Gwasanaethau	1,594	1,582	1,568	1,579	11	0.7 ↑
Lleoedd	26,191	25,642	25,753	25,993	240	0.9 ↑

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGC

(a) Newid mewn gwasanaethau a lleoliadau yn cymharu 2016–17 â 2017–18

(b) Nid yw lleoliadau yn cael eu cofrestru mewn asiantaethau gofal cartref, asiantaethau nyrsys, cynlluniau lleoli oedolion a'r gwasanaethau hynny nad yw AGC yn eu cofrestru

Siart 2.1: Cyfanswm y gwasanaethau a lleoedd i oedolion a reoleiddir gan AGC



Mae nifer y gwasanaethau a lleoedd i oedolion sydd wedi'u cofrestru gydag AGC yn dangos tuedd gymharol statig ar gyfer y pedair blynedd diwethaf. Bu cynnydd bach o 240 o leoedd a gynigir gan gartrefi gofal preswyl i oedolion yn 2018 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae nifer yr asiantaethau nyrsio wedi cynyddu o 14 dros y pedair blynedd diwethaf. Mae mwy o bwyslais bellach yn cael ei roi ar wasanaethau sy'n darparu gofal a chymorth ar gyfer pobl yn eu cartrefi eu hunain ac yn y gymuned, yn enwedig ar gyfer y boblogaeth hŷn sy'n cynyddu (dros 65 mlwydd

oed). Mae'n anodd mesur ar hyn o bryd a yw'r newid hwn i'r model gwasanaeth yn bodloni'r disgwyliadau a'r galw, am nad yw AGC yn cofrestru nifer y lleoedd ar gyfer gofal Cartref ac asiantaethau nyrsys ar hyn o bryd¹.

3. Gwasanaethau Plant

3.1: Gwasanaethau plant a reoleiddir gan AGC

Mae'r rhain yn cynnwys amrediad o wasanaethau gan gynnwys cartrefi gofal traddodiadol i blant sy'n derbyn gofal, lleoedd arbenigol am hyd at 52 wythnos a gwasanaethau gofal seibiant ar gyfer plant gydag amrediad o anabledau. Mae AGC hefyd yn gyfrifol am arolygu trefniadau lles ar gyfer plant mewn ysgolion arbennig preswyl.


Tabl 3.1 : Nifer y gwasanaethau Plant a lleoedd a reoleiddir gan AGC

	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	Newid (a)		
					Lefel	Canran	
Preswyl Plant							
Gwasanaethau	135	144	149	159	10	6.7 ↑	
Lleoedd	597	637	670	729	59	8.8 ↑	
Ysgolion Arbennig Preswyl							
Gwasanaethau	11	12	11	9	-2	-18.2 ↓	
Lleoedd	238	238	225	197	-28	-12.4 ↓	
Cyfanswm							
Gwasanaethau	146	156	160	168	8	5.0 ↑	
Lleoedd	835	875	895	926	31	3.5 ↑	

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGC

(a) Newid mewn gwasanaethau a lleoliadau yn cymharu 2016–17 â 2017–18

Siart 3.1: Cyfanswm y gwasanaethau plant a lleoliadau a reoleiddir gan AGC



¹ Bydd [Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#) yn newid y ffordd mae gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei reoleiddio a'i olygu. O dan gynigion newydd, bydd y ffordd mae AGC yn cofrestru ac arolygu gwasanaethau yn newid, a bydd system newydd o reoleiddio ac arolygu yn dod i rym o fis Ebrill 2018, a bydd yn llawn weithredol erbyn mis Ebrill 2019.

Mae ffigurau ar gyfer cartrefi plant yn dangos cynnydd yn y galw am wasanaethau a lleoedd dros y pedair blynedd diwethaf. Wrth gymharu â'r flwyddyn flaenorol roedd deg cartref plant ychwanegol (cynnydd o 6.7 y cant) yn darparu 59 o leoedd ychwanegol (cynnydd o 8.8 y cant). Dros y pedair blynedd diwethaf mae gostyngiad graddol wedi bod yn nifer yr ysgolion arbennig preswyl a nifer y lleoedd sy'n cael eu cynnig, o gymharu â'r flwyddyn diwethaf mae gostyngiad o ddau wasanaeth a 28 o leoedd.

3.2: Gwasanaethau plant a reoleiddir gan Awdurdodau Lleol

Mae'r rhain yn wasanaethau a lleoedd sy'n cael eu rheoleiddio gan yr awdurdod lleol ond yn cael eu harolygu gan AGC. Maent yn cynnwys amrediad o wasanaethau megis maethu a mabwysiadu. Mae gwasanaethau maethu'n darparu gofal i blant trwy eu lleoli gyda rhieni maeth naill ai ar sail tymor byr neu hirdymor. Mae gwasanaethau mabwysiadu yn darparu asesiadau a chymeradwyaeth ar gyfer oedolion sy'n dymuno mabwysiadu plentyn a/neu ei sibliingiaid. Mae AGC yn gyfrifol am arolygu asiantaethau ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn bodloni anghenion y plant a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag niwed.

Mae AGC yn gyfrifol am arolygu trefniadau lles ar gyfer y plant sy'n preswyllo mewn ysgolion preswyl a cholegau addysg bellach. Estyn sy'n gyfrifol am arolygu darpariaeth addysg o fewn y gwasanaethau hyn.

Tabl 3.2: Nifer y gwasanaethau a lleoliadau i blant nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan AGC

	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	Newid (a)	
					Lefel	Canran
Gwasanaethau Maethu						
Gwasanaethau	48	49	47	46	-1	-2.1 ↓
Lleoedd		
Gwasanaethau						
Gwasanaethau	24	22	22	23	1	4.5 ↑
Lleoedd		
Ysgolion Preswyl						
Gwasanaethau	10	11	11	11	0	0.0 →
Lleoedd	1,341	1,341	1,573	1,573	0	0.0 →
Colegau Addysg Bellach						
Gwasanaethau	2	3	4	4	0	0.0 →
Lleoedd		
Cyfanswm						
Gwasanaethau	84	85	84	84	0	0.0 →
Lleoedd	1,341	1,341	1,573	1,573	0	0.0 →

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGC

(a) Newid mewn gwasanaethau a lleoliadau yn cymharu 2016-17 â 2017-18

Nid oes newid arwyddocaol wedi bod yn nifer y gwasanaethau plant nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan AGC dros y flwyddyn diwethaf.

4. Gofal plant a Chwarae

Mae AGC yn cofrestru ac yn arolygu amrediad o ddarpariaeth gofal dydd llawn amser a rhan amser a ddarperir ar gyfer plant hyd at 12 mlwydd oed. Mae'r rhain yn cynnwys gwarchodwyr plant, meithrinfeydd a chlybiau ar ôl ysgol.


Tabl 4.1: Nifer y gwasanaethau a lleoliadau gofal plant a chwarae a reoleiddir gan AGC

	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	Newid (a)	
					Lefel	Canran
Gwarchodwyr Plant						
Gwasanaethau	2,437	2,416	2,340	2,201	-139	-5.9 ↓
Lleoedd	12,720	15,552	16,531	16,184	-347	-2.1 ↓
Gofal Dydd Llawn						
Gwasanaethau	653	677	708	749	41	5.8 ↑
Lleoedd	27,505	28,622	29,732	31,197	1,465	4.9 ↑
Gofal Dydd Sesiynol						
Gwasanaethau	785	764	748	695	-53	-7.1 ↓
Lleoedd	17,678	17,211	16,801	15,584	-1,217	-7.2 ↓
Gofal y Tu Allan i'r Ysgol						
Gwasanaethau	472	445	445	415	-30	-6.7 ↓
Lleoedd	16,808	16,518	16,660	15,909	-751	-4.5 ↓
Meithrinfeydd						
Gwasanaethau	33	28	28	27	-1	-3.6 ↓
Lleoliadau	683	589	705	657	-48	-6.8 ↓
Darpariaethau Chwarae Mynediad Agored						
Gwasanaethau	59	56	52	50	-2	-3.8 ↓
Lleoedd	2,187	2,348	3,584	3,534	-50	-1.4 ↓
Cyfanswm						
Gwasanaethau	4,439	4,386	4,321	4,137	-184	-4.3 ↓
Lleoliadau	77,581	80,840	84,013	83,065	-948	-1.1 ↓

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGC

(a) Newid mewn gwasanaethau a lleoliadau yn cymharu 2016–17 â 2017–18

Siart 4.1: Cyfanswm y gwasanaethau a lleoliadau gofal plant a chwarae a reoleiddir gan AGC



Mae rhagor o amrywiadau yn nifer y gwasanaethau a lleoedd yn amlwg yn y sector gofal plant a chwarae. Wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol mae gostyngiad cyffredinol wedi bod yng nghyfanswm y gwasanaethau (gostyngiad o 184) a lleoedd (gostyngiad o 948). Gofal dydd llawn yw'r unig faes sydd wedi dangos ehangiad dros y pedair blynedd diwethaf – gan fod gwasanaethau wedi cynyddu o 96 (14.7 y cant) a lleoedd o 3,692 (13.4 y cant). Mae ffigurau ar gyfer gwarchodwyr plant yn dangos gostyngiad parhaus yn nifer y gwasanaethau a lleoedd, gyda 139 o wasanaethau yn llai o'u gymharu â'r flwyddyn flaenorol (gostyngiad o bron chwech y cant) a 347 o leoedd yn llai (gostyngiad o 2.1 y cant). Mae ffigurau ar gyfer gwasanaethau gofal plant rhan amser a chofleidiol eraill megis gofal dydd sesiynol, gofal y tu allan i'r ysgol, crèches a darpariaeth chwarae mynediad agored i gyd yn dangos gostyngiad yn nifer y gwasanaethau a lleoedd ers 2014–15.

5. Cofrestriadau a Diddymiadau

Mae'n ofyniad cyfreithiol i bob sefydliad a gwasanaeth sydd am ddarparu gofal cymdeithasol neu ofal plant yng Nghymru gofrestru gydag AGC. Fel rheoleiddiwr annibynnol mae AGC yn penderfynu pwy all ddarparu gwasanaeth gofal, wedi iddynt gwblhau proses gofrestru yn llwyddiannus o fewn amserlen benodol. Mae nifer y gwasanaethau sy'n cael eu cofrestru'n amrywio ar gyfer pob blwyddyn adrodd.

Nid yw diddymiadau gwasanaeth yn gysylltiedig â gweithgareddau gorfodi a wneir gan AGC. Mae nifer o resymau dros ddiddymu gwasanaeth. Er enghraifft, newid mewn amgylchiadau personol neu ariannol megis salwch neu farwolaeth, ymddeoliad, cau gwasanaeth a newid mewn perchnogaeth.


Tabl 5: Nifer y cofrestriadau newydd a diddymiadau a gofnodwyd gan AGC o 31 Mawrth 2018

	Cofrestriadau		diddymiadau		Lefel (a)	
	Gwasanaethau	Lleoedd	Gwasanaethau	Lleoedd	Gwasanaethau	Lleoedd
Gwasanaethau Oedolion						
Lleoli Oedolion
Gofal Preswyl i Oedolion	45	985	39	693	6	292
Gofal Cartref	32	.	23	.	9	.
Asiantaethau Nyrsys	6	.	1	.	5	.
Cyfanswm	83	985	63	693	20	292
Gwasanaethau Plant						
Preswyl Plant	14	65	4	26	10	39
Ysgolion Arbennig Preswyl
Gwasanaethau Maethu	.	.	1	.	-1	.
Gwasanaethau Mabwysiadu	1	.	.	.	1	.
Ysgolion Preswyl
Canolfan Breswyl i Deuluoedd
Colegau Addysg Bellach
Cyfanswm	15	65	5	26	10	39
Gofal Plant a Chwarae						
Gwarchodwyr Plant	141	1,159	270	1,601	-129	-442
Gofal Dydd Plant	132	3,844	169	4,685	-37	-841
Cyfanswm	273	5,003	439	6,286	-166	-1,283
Cyfanswm pob gwasanaeth	371	6,053	507	7,005	-136	-952

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGC


(a) Mae'r lefel yn dangos y gwahaniaeth rhwng nifer y cofrestriadau newydd a'r diddymiadau ar gyfer y flwyddyn adrodd 2018

Siart 5.1: Nifer y gwasanaethau sydd newydd eu cofrestru a gofnodwyd ar 31 Mawrth 2018




- Cofnodwyd 371 o gofrestrïadau newydd ar gyfer y flwyddyn adrodd 2018, yn darparu 6,053 o leoedd ychwanegol.
- Roedd bron i dri chwarter o'r cofrestrïadau newydd (74 y cant) wedi'u cofnodi ar gyfer gofal plant a chwarae, yn darparu 273 gwasanaeth a 5,003 o leoedd ychwanegol.
- Roedd gwasanaethau i oedolion yn cyfrif am bron i chwarter o'r cofrestrïadau newydd (22 y cant), gyda 83 o wasanaethau a 985 o leoedd ychwanegol – gyda'r mwyafrif ar gyfer cartrefi gofal preswyl.
- Gwelwyd cynnydd llai mewn cofrestrïadau newydd ar gyfer gwasanaeth plant o gymharu â sectorau gofal eraill (15 gwasanaeth a 65 lle).

Siart 5.2: Nifer y diddymiadau gwasanaeth a gofnodwyd ar 31 Mawrth 2018



- Cofnodwyd 507 diddymiad gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn adrodd 2018, gyda cholled o 7,005 o leoedd.
- Roedd y nifer fwyaf o ddiddymiadau yn y sector gofal plant a chwarae (collwyd 439 gwasanaeth a 6,286 o leoedd). Roedd y sector hwn yn cyfrif am 87 y cant o'r holl ddiddymiadau yn ystod y flwyddyn.
- Roedd gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau plant yn cyfrif am lai o ddiddymiadau – 12 y cant ac un y cant yn y drefn honno.

Siart 5.3: Y gwahaniaeth rhwng nifer y cofrestrïadau gwasanaeth newydd a diddymiadau o 31 Mawrth 2018



Wrth gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng nifer y cofrestriadau newydd a nifer y diddymiadau ar gyfer y flwyddyn adrodd, cofnodwyd bod nifer fach o wasanaethau a lleoedd dros ben ar gyfer gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau Plant. Mae'r effaith hon yn cael ei gwrthbwysu gan y nifer fwy o wasanaethau a lleoedd a gollwyd yn y sector gofal plant a chwarae – tuedd sy'n dangos rhagor o ansefydlogrwydd ynghylch cofrestriadau a diddymiadau o fewn y farchnad gofal plant. (*Tabl 5.1, Siart 5.3*).

6. Diffyg cydymffurfio a phryderon

Cymerir camau gorfodi gan AGC os nad yw gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion y rheoliadau neu amodau'r cofrestriad. Mae hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cofnodi tystiolaeth o ba reoliadau nad ydynt yn cael eu bodloni gan y gwasanaeth, ac mae'n gosod amserlen glir ar gyfer gweithredu a gwella. Mae cydymffurfiaeth yn cael ei gwirio yn ystod arolygiad sy'n rhan o'r amserlen arolygu arferol, ac os yw gwasanaeth yn methu gwella, yna mae'r camau gorfodi yn cael eu huwchgyfeirio ac mae'r gwasanaeth yn cael ei gofnodi fel gwasanaeth sy'n peri pryder.

Un o brif amcanion AGC yw rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau gofal iechyd a gofrestrir yng Nghymru. Mae'r cyhoedd ac aelodau staff y gwasanaethau yn cael eu hannog i fynegi pryder er mwyn helpu nodi gwasanaethau o ansawdd gwael. Mae hyn, gydag amser, yn helpu i wella safonau gofal drwy gamau gorfodi (lle bo hynny'n angenrheidiol).

Tabl 6 :Nifer yr hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio a phryderon a gofnodwyd gan AGC o 31 March 2018 ymlaen


	Hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio (a)	Pryderon
Gwasanaethau Oedolion		
Lleoli Oedolion	.	5
Gofal Preswyl i Oedolion	958	1,986
Gofal Cartref	191	738
Asiantaethau Nyrsys	.	25
Cyfanswm	1,149	2,754
Gwasanaethau Plant		
Preswyl Plant	158	156
Ysgolion Arbennig Preswyl	.	2
Gwasanaethau Maethu	7	31
Gwasanaethau Mabwysiadu	.	.
Ysgolion Preswyl	.	8
Canolfan Breswyl i Deuluoedd	.	1
Colegau Addysg Bellach	.	.
Cyfanswm	165	198
Gofal Plant a Chwarae		
Gwarchodwyr Plant	349	102
Gofal Dydd Plant	764	365
Cyfanswm	1,113	467
Cyfanswm pob gwasanaeth	2,427	3,419

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGC

(a) Nifer yr achosion o ddiffyg cydymffurfio yw cyfanswm yr achosion o ddiffyg cydymffurfio nad ydynt wedi cael eu datrys a'r rhai sydd wedi cael eu datrys yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2017 - 31 Mawrth 2018.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cafodd 2,427 hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio a 3,419 pryder eu cofnodi yn erbyn amrediad o fathau gwahanol o wasanaethau. ([Siart 6.1](#), [Siart 6.2](#)).


Siart 6.1: Hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio a gofnodwyd ar 31 Mawrth 2018



- Cofnodwyd 2,427 o hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio ar gyfer y flwyddyn adrodd.
- Roedd bron hanner yr hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio ar gyfer gwasanaethau i oedolion (47 y cant) – gyda'r rhan fwyaf yn ymwneud â chartrefi gofal preswyl.
- Roedd 46 y cant o hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae.
- Cartrefi plant oedd yn cyfrif am y mwyafrif o 7 y cant o hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio ar gyfer gwasanaethau plant.

Siart 6.2: Pryderon a gofnodwyd ar 31 Mawrth 2018

- Cofnodwyd 3,419 o bryderon ar gyfer y flwyddyn adrodd.
- Roedd mwyafrif arwyddocaol (80 y cant) ar gyfer gwasanaethau i oedolion – cofnodwyd 1,986 o bryderon ar gyfer



cartrefi gofal preswyl a 738 o bryderon ar gyfer gofal cartref.

- Roedd bron 15 y cant o bryderon a gofnodwyd ar gyfer gofal plant a chwarae – gyda'r mwyafrif ar gyfer gofal dydd plant.
- Cofnodwyd chwech y cant o bryderon ar gyfer gwasanaethau plant – y canrannau uchaf oedd 156 ar gyfer cartrefi plant a 31 ar gyfer asiantaethau maethu.

Rhestr o dermau

Lleoedd	<p>Mae rhai gwasanaethau wedi'u cofrestru i ddarparu gofal i uchafswm o bobl – dyma nifer y lleoedd cofrestredig.</p> <p>Ni chaiff lleoedd eu cofrestru mewn gofal cartref, asiantaethau nyrsys, cynlluniau lleoli oedolion a'r gwasanaethau hynny nad yw AGC yn eu cofrestru (gweler "Cofrestru").</p>
Darparwr	<p>Sefydliad neu unigolyn sy'n darparu gofal cymdeithasol a reoleiddir neu wasanaeth blynyddoedd cynnar.</p>
Cofrestriad	<p>Mae angen i'r rhan fwyaf o wasanaethau sy'n darparu gofal i bobl gael eu cofrestru gydag AGC cyn iddynt gael gweithredu. Mae'n rhaid i'r rheiny sydd am redeg gwasanaethau gyflwyno cais cofrestru i AGC sy'n cynnwys cyfweiliadau ac ymweliadau gwirio â safleoedd. Dim ond gwasanaethau sy'n dangos eu bod yn addas i redeg a fydd yn cael cofrestru.</p> <p>Mae gwasanaethau gofal sydd angen cofrestru yn cynnwys:</p> <p>Cartrefi gofal oedolion hŷn ac iau, asiantaethau gofal cartref, cartrefi plant, asiantaethau mabwysiadu'r sector cyhoeddus ac annibynnol, asiantaethau mabwysiadu'r sector cyhoeddus a gwirfoddol, gofalwyr plant a crèches.</p> <p>Nodwch nad yw asiantaethau maethu awdurdodau lleol, asiantaethau mabwysiadu awdurdodau lleol, ysgolion preswyl, ysgolion arbennig preswyl a cholegau addysg bellach wedi'u gofrestru gydag AGC ond fe'u rheoleiddir gan AGC (gweler 'Rheoliad').</p>
Rheoliad	<p>Mae rheoleiddio gwasanaethau gofal yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau gan AGC i wirio a yw gwasanaethau'n ddiogel ac i ysgogi gwella. Mae Rheoleiddio yn cynnwys: Cofrestru - penderfynu pwy all ddarparu gwasanaethau; Arolygu - arolygu gwasanaethau a chyhoeddi adroddiadau; a Gorfodi - cymryd camau gweithredu, gan gynnwys cyflwyno hysbysiadau o ddifffyg cydymffurfio, dileu cofrestriad gwasanaeth, a chynnal erlyniad troseddol. Nid yw AGC yn ymchwilio i gwynion ond mae'n mynd ar drywydd pryderon, fel arfer drwy gynnal arolwg o'r gwasanaeth.</p>
Rheoliadau	<p>Mae rheoliadau yn ofynion cyfreithiol er mwyn rhedeg gwasanaethau a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cael eu gorfodi gan AGC ar ran Gweinidogion Cymru.</p>
Gwasanaethau	<p>Gwasanaeth yw'r enw torfol ar gyfer sefydliad neu unigolion a reoleiddir gan AGC.</p>
Gofal plant a chwarae	<p>Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau canlynol i blant o dan 12 mlwydd oed:</p> <ul style="list-style-type: none">Gofal Dydd LlawnGwarchodwyr plantGofal y tu allan i oriau ysgolGofal Dydd SesiynolMeithrinfeyddMynediad agored
Gwasanaethau plant	<p>Mae'r rhain yn cynnwys y gwasanaethau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">Cartrefi plantCanolfannau preswyl i deuluoeddAsiantaethau maethu'r sector cyhoeddus ac annibynnolAsiantaethau mabwysiadu'r sector preifat a gwirfoddolYsgolion preswyl sy'n darparu llety i fyfyrwyr sy'n iau na 18 mlwydd oedYsgolion arbennig preswyl sy'n rhoi llety i fyfyrwyr sy'n iau na 18 mlwydd oedColegau addysg bellach sy'n darparu llety i fyfyrwyr sy'n iau na 18 mlwydd oedUned Ddiogel (wedi'i chynnwys yn y ffigyrau ar gyfer cartrefi plant oherwydd niferoedd bach)

Gwasanaeth au oedolion

Mae'r rhain yn cynnwys y gwasanaethau canlynol:
Cartrefi Gofal i Oedolion Hŷn (65 mlwydd oed neu'n hŷn)
Cartrefi Gofal i Oedolion Iau (o dan 65 mlwydd oed)
Cynlluniau lleoli oedolion
Asiantaethau Gofal Cartref
Asiantaethau Nyrsys

Gwybodaeth allweddol ar ansawdd

Cefndir

AGC yw'r rheoleiddiwr ar gyfer gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, sy'n cynnwys yr holl ystod o warchodwyr plant a meithrinfeydd, i gartrefi i bobl hŷn, ac mae'n anelu at:

- Roi sicrwydd annibynnol ynghylch ansawdd ac argaeledd gofal cymdeithasol yng Nghymru
- Diogelu oedolion a phlant, gan sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn;
- Gwella gofal drwy annog a hyrwyddo gwelliannau o ran diogelwch, ansawdd a
- argaeledd gwasanaethau gofal cymdeithasol
- and and 'm
- datblygu polisi, y sector gofal cymdeithasol a gofal y cyhoedd.

Mae AGC yn hybu gwelliannau i ofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol drwy:

- rheoleiddio
- arolygu ac adolygu
- rhoi cyngor proffesiynol i Weinidogion a gwneuthurwyr polisi.

Ffynonellau ein hystadegau

Mae'r wybodaeth yn y datganiad hwn yn dod o system Cefnogaeth Busnes AGC sy'n cael ei defnyddio i gofrestru a rheoleiddio gwasanaethau gofal ledled Cymru. Nid yw'r wybodaeth ddim ond yn perthyn i wasanaethau a reoleiddir sy'n gyfredol i 31 Mawrth 2018. Mae AGC yn mynd drwy'r broses o adolygu'r broses a'r systemau rheoleiddiol.

Perthnasedd

Rydym o'r farn mai'r defnyddwyr allweddol sy'n defnyddio gwybodaeth am wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru (ar wahân i ddefnydd craidd AGC) yw:

- Gweinidogion Llywodraeth Cymru
- Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Aelodau'r Cynulliad ac Adran Ymchwil yr Aelodau yn y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Cymru
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Awdurdodau unedol llywodraeth leol (aelodau etholedig a swyddogion)
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion,
- Adrannau eraill o Lywodraeth Cymru
- Adrannau eraill o'r llywodraeth

- Dinasyddion unigol a chwmnïau preifat.

Ar wahân i ddefnydd craidd AGC o'r wybodaeth, defnyddir yr ystadegau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Mae rhai enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:

- Rhoi cyngor i Weinidogion
- Cymharu â meincnodi awdurdodau unedol
- Llywio dadlau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a thu hwnt
- Rhoi gwybodaeth i gomisiynwyr gwasanaethau gofal.

Cywirdeb

Mae'r ystadegau a gyflwynir yma wedi'u seilio ar y system weinyddol a ddefnyddir gan AGC. Mae'r data yn agored i arolygwyr, staff cefnogi busnes, ac aelodau AGC eraill i wneud newidiadau ac ychwanegiadau at gofnodion gwasanaeth. Er bod hyn yn sicrhau bod y data yn gyfredol, mae'n gallu arwain at anghywirdebau ac anghysondebau, o ganlyniad i'r amrywiaeth o bobl sydd â mynediad at y system. Felly, efallai na fydd eitemau data unigol yn gywir ar adeg yr adrodd. Mae AGC wedi dechrau ar y broses o adolygu'r system, gyda'r nod o wella ei chywirdeb.

Mae'r data a gedwir yn system AGC yn cael ei wirio yn ystod arolygiadau, y Datganiad Hunanasesu Gwasanaethau blynyddol, a thrwy ymgysylltu â'r awdurdod lleol. Y bwriad yw y bydd y data yn cael ei ddiweddarau a'i wirio'n fwy rheolaidd drwy wella gwasanaethau ar-lein. Mae angen i wasanaethau roi gwybod i AGC ynglŷn ag unrhyw newidiadau i'w gwasanaeth, ond ni fydd yr hysbysiadau hyn yn cael eu gwirio hyd yr adeg pan fydd yr arolygiad nesaf yn digwydd. Fodd bynnag, mae'r data yn cael ei wirio'n rheolaidd am gysondeb, ac mae adolygiadau a diweddariadau yn cael eu gwneud yn rheolaidd.

Symbolau

Defnyddir y nodiadau canlynol yn y tablau hyn:

- . = nid yw'r eitem ddata yn berthnasol
- .. = nid yw'r eitem ddata ar gael
- = nid yw'r eitem ddata yn sero yn union, ond rhagwelir ei fod yn sero neu lai na hanner y digid olaf a ddangosir
- * = nid yw'r eitem ddata yn datgelu neu'n ddigon cadarn i'w gyhoeddi

Datgelu a rowndio

Rydym wedi rowndio'r wybodaeth ar y byrddau hyn neu'r byrddau ategol ar StatsCymru. Mae hyn oherwydd na ellir dod o hyd i ddim ond ychydig o'r wybodaeth hon hefyd ar Gyfeirlyfr o Wasanaethau Rheoledig AGC.

Amseroldeb a phrydlondeb

Mae system Cymorth Busnes AGC yn cael ei diweddarau'n barhaus fel rhan o waith rheoleiddio'r arolygiaeth o ddydd i ddydd. Mae cyhoeddiadau yn ymwneud â chipluniau o'r system a gymerwyd ar ddiwrnod olaf y flwyddyn ariannol (31 Mawrth). Felly mae gwybodaeth a gyhoeddir ar gael ar

gyfer yr holl flwyddyn ariannol. Wedyn, mae'r datganiad yn cael ei greu a'i gyhoeddi cyn gynted â phosibl.

Hygyrchedd ac Eglurder

Mae'r datganiad ystadegol yn cael ei gyhoeddi yn yr adran Datganiad Ystadegol Blynyddol o wefan AGC. Mae gwybodaeth fanylach yn cael ei chyhoeddi'n chwarterol i gyd-fynd gyda'r datganiad hwn ar ddull lledaenu ystadegau Llywodraeth Cymru, StatsCymru. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad pellach sy'n nodi'r math o wasanaeth a'r awdurdod lleol: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue>

Cymaroldeb a chydlyniaid

Mae cofrestru, dadgofrestru, a newidiadau i gofrestru yn digwydd drwy gydol y flwyddyn, er yn gyffredinol mae nifer y gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru ar unrhyw un adeg yn weddol gyson. Felly, mae'r ffigyrau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn yn debyg yn fras i'r rheiny o ddatganiadau blaenorol. Fodd bynnag, symudodd AGC o adroddiad chwarterol i un blynyddol yn 2015/16. Felly, efallai na fydd yn bosibl cymharu datganiadau blaenorol â'r datganiad hwn.

Polisi adolygiadau

Gan fod data yn cael ei gasglu gan system weinyddol, ac yn rhoi darlun o weithgaredd a gofnodwyd ar ddyddiad penodol, ni fydd data yn cael ei adolygu bob chwarter. Mae'n bosibl na fydd y darlun hwn yn gywir oherwydd efallai na fydd modd ychwanegu data ar y system tan ddyddiad diweddarach (e.e. y chwarter nesaf) ac efallai y bydd y chwarter nesaf yn cynnwys ychydig o ddata o'r chwarter blaenorol a gafodd ei gofnodi'n 'hwyr'. Fodd bynnag, mae nifer yr achosion dan sylw yn debygol o fod yn fach.

Cyhoeddiadau cysylltiedig

- Mae AGC yn cyhoeddi gwybodaeth ychwanegol ar weithgareddau mewn gwasanaethau a reoleiddir ar sail flynyddol yn [Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd](#).
- Mae rhestr o wasanaethau a reoleiddir a'u hadroddiadau arolygu diweddaraf ar gael yng [Nghyfeirlyfr y Gwasanaethau Rheoledig](#).

Gwybodaeth bellach

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar [wefan AGC](#).

Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi bod chwech o'r saith set o ystadegau a gyflwynir yma yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Nid yw Atgyfeiriadau GIG ar gyfer apwyntiadau cyntaf fel cleifion allanol yn cael eu cyfri'n Ystadegau Gwladol ar hyn o bryd.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau gwladol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth i'r cyhoedd.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os down i bryderu ynghylch p'un a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Cyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Gwybodaeth bellach am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

Manylion pellach

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan [AGC](#).

Mae'r [Gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGC 2017-18](#) ar gael.

Diweddariad Nesaf

I gael ei gadarnhau 2019.

Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd o'r ystadegau hyn, anfonwch e-bost at CSSIWAnalysts@wales.gsi.gov.uk.

Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan [Trwydded Agored y Llywodraeth v3.0](#), ac eithrio lle y mae'n nodi fel arall.

